Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PYSGODFA GOCOS TRAETH MELYNOG 2026
# DATGANIAD CAU

**wedi'i gyhoeddi yn unol â**

**Gorchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024**

**MAE GWEINIDOGION CYMRU**, yn unol ag erthygl 7 o *Orchymyn Rheoli a Thrwyddedu Pysgota am Gocos (Ardal Benodedig) (Cymru) 2024*, yn **datgan** bod y gwelyau cocos yn yr ardal a ddiffinnir isod ("yr Ardal") **ar gau** at ddibenion pysgota neu gymryd cocos o **00:01 ar 1 Medi 2026**.

**Rheswm:** Ar ôl canfod lefelau uchel o E. coli ym mhysgodfa gocos Traeth Melynog ym mis Medi 2024, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu gwaharddiad am gyfnod cyfyngedig fel mesur rhagofalus tra bod samplau ansawdd dŵr yn cael eu cymryd. Felly, bydd yn aros ar gau nes y dywedir yn wahanol.

## Yr Ardal


Mae'r Ardal sydd wedi'i chau gan yr hysbysiad hwn wedi'i hamgáu gan linell a dynnir rhwng y safleoedd canlynol, fel y'u disgrifir—

I. llinell syth o ledred 53˚08'.08G, hydred 004˚21'.05Gn, cyfeirnod map SH 4274 6234 i ledred 53˚08'.63G, hydred 004˚19'.02'Gn, cyfeirnod map SH 4504 6328;
II. ar hyd llinell y Penllanwau Astronomaidd o ledred 53˚08'.63G, hydred 004˚19'.02Gn, cyfeirnod map 4504 6328 i ledred 53˚08'.89G, hydred 004˚17'.90'Gn, cyfeirnod map 4632 6372;
III. llinell syth o ledred 53˚08'.89G, hydred 004˚17'.90'Gn, cyfeirnod map 4632 6372 i ledred 53˚08'.01G, hydred 004˚ 17'.85Gn, cyfeirnod map 4632 6210;
IV. ar hyd llinell y Penllanwau Astronomaidd o ledred 53˚08'.01G, hydred 004˚17'.85'Gn, cyfeirnod map 4632 6210 i ledred 53˚07'.68G, hydred 004˚18'.55'Gn, cyfeirnod map 4552 6150;
V. llinell syth o ledred 53˚07'.68G, hydred 004˚18'.55Gn, cyfeirnod map 4552 6150 i ledred 53˚07'.66'G, hydred 004˚19'.57'Gn, cyfeirnod map 4438 6150;
VI. ar hyd y Penllanwau Astronomaidd o ledred 53˚07'.66G, hydred 004˚19'.57Gn, cyfeirnod map 4438 6150 i ledred 53˚08'.08G, hydred 004˚21'.05Gn, cyfeirnod map 4274 6234;

Rhoddir yr hysbysiad hwn o dan awdurdod y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiad yr Hysbysiad: 31 Awst 2026

At ddibenion gwybodaeth yn unig, dangosir yr Ardal wedi'i hamlinellu mewn du ar y map isod:




**RHAGOR O WYBODAETH**

I weld rhagor o hysbysiadau a chael rhagor o wybodaeth am gau'r gwelyau hyn, cysylltwch â:

Swyddfa Pysgodfeydd Aberdaugleddau
Llywodraeth Cymru
Ystafell 3, Cedar Court
Parc Busnes Haven’s Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro
SA73 3LS

Rhif ffôn: 0300 025 3500
E-bost: Pysgodfeydd@llyw.cymru